



# Gweledigaeth, Strategaeth a Cynllun Gweithredu Bwyd ar gyfer

## POWYS

**2024-2028**

Gorffennaf 2024



## CYNNWYS:

Tudalen	Teitl
3	Cydnabyddiaeth
4	Gweledigaeth
4	Crynodeb Gweithredol
6	Rhagair
8	Cyd-destun Cenedlaethol
9	Cyd-destun Rhanbarthol
11	Partneriaeth Bwyd Powys Food
13	Proses Ymgynghori
16	Canfyddiadau
17	Uwchgynhadledd Fwyd
19	Canlyniadau Strategol
20	Cynllun Gweithredu
36	Dilysu
36	Trosolwg
37	Gwybodaeth Gyswilt ac Arall

## CYDNABYDDIAETH

Hoffai Partneriaeth Bwyd Powys Food ddiolch i holl bartneriaid ein Grŵp Llywio am eu cyfraniadau i'r strategaeth hon ac am arwain ein gwaith. Hoffem hefyd ddiolch i'n partneriaid a'n cyllidwyr cenedlaethol, y mae eu cefnogaeth i'n gweithgareddau a'n gwasanaethau wedi bod yn amhrisiadwy.

### Aelodau Bwyd Powys Food

Bannau Brycheiniog

Coleg y Mynydd Du

Cultivate

Cyfoeth Naturiol Cymru

Coleg Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Sir Powys

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Ffermydd a Gerddi

Cymdeithasol

### Cefnogwyr a Chyfranwyr Bwyd Powys Food

Synnwyr Bwyd Cymru

Lantra/Cyswllt Ffermio

Ein Bwyd 1200

Russell George

(hyrwyddwr bwyd ac Aelod Seneddol)

Lleoedd Bwyd Cynaliadwy

(Esmee Fairbairn, Cymdeithas y Pridd a Sustain)

Llywodraeth Cymru



Black Mountains  
College



Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales



Our Food  
1200



## GWELEDIGAETH

Yn ystod 2023, cynhaliodd Cydlynwyr Bwyd Powys Food ymgynghoriadau ar draws ystod amrywiol o gymunedau a demograffeg, o ddisgyblion ysgol i drigolion oedrannus, gan gynnwys y cyhoedd, llywodraeth leol a sefydliadau trydydd sector. Ar ôl gwrandao ar ymatebion pobl, a thrwy drafodaethau a gynhaliwyd yn ein Huwchgynhadledd Fwyd, cyd-grëwyd y weledigaeth ganlynol.

“Bwyd da i **BOWYS!**”

Lle mae bwyd lleol, cynaliadwy ac iach  
yn cefnogi cymunedau, ei phobl a’r amgylchedd.”

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Bwyd Powys Food eisiau creu system fwyd ar gyfer Powys sy’n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wrth systemau bwyd, rydym yn golygu'r holl gysylltiadau a chysyllteddau sy'n ymwneud â thyfu, cynhyrchu, gweithgynhyrchu, cyflenwi a bwyta bwyd.

Er mwyn penderfynu sut i gyflawni hyn, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori cyhoeddus yn ystod 2023, ynghyd â gweithdai yn yr Uwchgynhadledd Fwyd. Cyrhaeddwyd llawer o gymunedau a sectorau, a bydd y sgysiau hyn yn parhau wrth i ragor o bartneriaid gael eu cynnwys yn y trafodaethau.

Amlygodd yr ymgynghoriadau lawer o themâu a oedd yn gorgyffwrdd. Roedd yn ddiddorol gweld pa mor debyg oedd llawer o’r ymatebion ar draws Powys, o bentrefi bach i drefi mawr, lleoliadau trefol a gwledig, ac ar draws gwahanol demograffeg. Fe welwch y themâu cyffredin hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ein pedwar Canlyniad Strategol. Defnyddir Canlyniadau Strategol fel dangosyddion o lwyddiant ein strategaeth. Mae cynllun gweithredu cynhwysfawr gyda phartneriaid allweddol i weithio tuag at gyflawni'r weledigaeth.

Prif ganfyddiadau’r ymgynghoriadau oedd:

- Polisi – sicrhau bod polisiâu cynaliadwy sy’n ymwneud â bwyd wedi’u gwreiddio o fewn Cynlluniau Lles Cyngor Sir Powys a’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a bod timau caffael yn gweithio mewn ffordd gydweithredol â rhanddeiliaid allweddol i ddarparu dull gweithredu sy’n seiliedig ar systemau

- Gwybodaeth ac Addysg – cynyddu gwybodaeth pobl am sut i dyfu a choginio bwyd maethlon ac iach a darparu rhagor o gyfleoedd i alluogi a grymuso ein cymunedau i allu gwneud hyn. Cytunwyd ar gonsensws ar gyflwyno'r cwricwlwm ynghylch tyfu, coginio a bwyta bwyd maethlon
- Economaidd – gweithio tuag at ddarparu cyflog a gwobr deg i ffermwyr, gweithwyr tir a chynhyrchwyr
- Yr Amgylchedd a Defnydd Tir - gwneud tir yn fwy hygyrch ac ar gael i bobl ar raddfa fach a mwy, ar raddfa fasnachol. Anelu at leihau milltiroedd bwyd, defnyddio deunydd pecynnu llai niweidiol a helpu i leihau ôl troed carbon cynhyrchu bwyd
- Iechyd a Lles – mae manteision iechyd a lles rhannu prydau a bwyta gyda theulu a ffrindiau yn glir ac mae angen cyfleoedd ar bobl i wneud hyn
- Iechyd Corfforol - mae deiet gwael yn arwain at ganlyniadau iechyd gwael
- Ymgysylltu â'r Gymuned - annog dinasyddiaeth fwyd weithredol a symudiad bwyd da trwy weithgareddau cymdeithasol a lles yn ymwneud â bwyd iach
- Cadwyni Cyflenwi Byr - cefnogi tyfwyr a chynhyrchwyr i gynhyrchu mwy o fwyd y gellir ei gaffael, ei brosesu a'i fwyta'n lleol. Cefnogi'r sector ffermio i gynhyrchu bwyd mewn cydymdeimlad â'r argyfwng hinsawdd

Drwy ddadansoddi'r canfyddiadau hyn a meithrin partneriaethau cryf, mae'r cynllun yn obeithiol y gall achosi newid parhaol i systemau bwyd Powys. Cyflawnir hyn drwy ein strategaeth a'n cynllun gweithredu ac mae'n cefnogi system fwyd deg a gwydn ledled Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn ddogfen bedair blynedd. Bydd Cydlynwyr Bwyd Powys Food yn mesur ei llwyddiant gan ddefnyddio'r Canlyniadau Strategol a byddant yn parhau i ymgynghori ac ymgysylltu drwy gydol oes y ddogfen hon. Bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol yn adolygu'r cynllun gweithredu a bydd hwn yn cael ei gyflwyno i Bartneriaeth Bwyd Powys Food.

Er nad oes gofyniad cyfreithiol ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru ar hyn o bryd i gynhyrchu eu cynlluniau gweithredu bwyd eu hunain, gallai hyn newid yn y dyfodol. Mae 'Strategaeth Fwyd Powys 2024-2028' mewn sefyllfa dda i addasu i newidiadau mewn deddfwriaeth ac mae'n darparu dogfen arweiniol i gyflawni'r Weledigaeth: "Bwyd da i **BOWYS!** Lle mae bwyd lleol, cynaliadwy ac iach yn cefnogi cymunedau, ei phobl a'r amgylchedd".

Hoffai Partneriaeth Bwyd Powys Food ddiolch i bob person a sefydliad a gyfrannodd. Mae'r strategaeth hon yn gam cyntaf arwyddocaol i gynrychioli'r holl waith bwyd gwych sy'n digwydd ym Mhowys, tra'n amlygu'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd.

## RHAGAIR

“Fel Cadeirydd cyntaf partneriaeth lleoedd bwyd cynaliadwy Bwyd Powys Food a ffurfiwyd ym mis Mawrth 2022, rwy'n falch ei bod wedi tyfu i gynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o Bowys fel aelodau. Yn y broses mae wedi sefydlu llwyfan i Bowys gymryd rhan mewn creu mudiad bwyd cynaliadwy gan feithrin cydweithredu a gweithredu i fynd i'r afael â heriau megis tlodi bwyd, hybu bwyta'n iach, a meithrin system fwyd leol ffyniannus er budd holl drigolion Powys.



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Gweithredu Bwyd Powys Food. Mae'r cynllun hwn yn benllanw cydweithio helaeth rhwng ystod amrywiol o randdeiliaid ar draws Powys. Mae ffermwyr, grwpiau cymunedol, addysgwyr, busnesau, ac unigolion i gyd wedi dod ynghyd i nodi'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu ein system fwyd leol.

Mae gan Bowys dreftadaeth amaethyddol gyfoethog a thirwedd gyda photensial i gynyddu cynhyrchiant bwyd cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym hefyd yn wynebu heriau, megis mynediad at fwyd fforddiadwy ac iach, cefnogi newydd-ddyfodiaid i'r sector amaethyddol, a lleihau gwastraff bwyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Bwyd hwn yn fap ffordd ar gyfer system fwyd fwy cadarn a gwydn ym Mhowys. Mae'n amlinellu gweledigaeth glir ac yn nodi camau gweithredu allweddol y gallwn eu cymryd gyda'n gilydd i gynyddu'r cyfle i bawb ym Mhowys gael mynediad at fwyd lleol o ansawdd da.

Mae llwyddiant y Cynllun Gweithredu Bwyd hwn yn dibynnu ar bob un ohonom. Rydym yn annog unigolion, busnesau, sefydliadau a chyrrff y llywodraeth i ymuno â ni i roi'r camau a amlinellir yn y ddogfen hon ar waith.”

**Richard Edwards**

Cadeirydd Bwyd Powys Food

Cultivate



“Adeiladu system fwyd wydn a theg ar draws holl gymunedau Powys yw’r hyn sy’n fy ysbrydoli. Rwyf am weld system fwyd sy’n cefnogi ein tyfwyr a’n ffermwyr, yn annog cadwyni cyflenwi lleol, ac yn galluogi pawb i gael mynediad at fwyd fforddiadwy, ffres a maethlon. Amlinellodd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gennym fel rhan o dynnu’r strategaeth hon at ei gilydd rai rhwystrau clir y mae angen

inni fynd i’r afael â hwy. Mae yna ddiffyg sgiliau tyfu bwyd ffres a choginio. Byddai ein cymunedau hefyd wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn mwy o brydau a rennir a bwyta ac yfed gyda’i gilydd oherwydd ei fod yn gwneud iddynt deimlo’n well. Nid yw ein cymunedau bob amser yn teimlo cysylltiad. Trwy weithio gyda’n partneriaid a’n cymunedau, rydym yn gobeithio cael llawer o lwyddiannau erbyn 2028.”

### **Nick Burdekin**

Cydlynnydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Gogledd Powys  
Cultivate

“Mae’r system fwyd yn gymhleth ac yn llawn heriau ond eto mae’n rhywbeth sy’n effeithio ar bob un ohonom bob dydd. Gall fod yn destun pleser a llawenydd, gan ddod â theuluoedd a chymunedau at ei gilydd ac adeiladu economi leol gref. Ond gall hefyd fod yn ffynhonnell afiechyd, straen a phwysau a dryswch i lawer. Wrth greu’r strategaeth a’r cynllun gweithredu hwn, rydym yn gobeithio adeiladu mudiad bwyd da a fydd yn galluogi pawb ym Mhowys i sylweddoli’r manteision enfawr y gall bwyd eu darparu i ni bob dydd. Rwyf wedi fy nghyffroi’n fawr gan botensial Bwyd Powys Food dros y blynnyddoedd i ddod ac ni allaf aros i weld beth fyddwn yn ei gyflawni gyda’r strategaeth hon.”



### **Chloe Masefield**

Cydlynnydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy De Powys  
Cultivate

## CYD-DESTUN CENEDLAETHOL

Ni fu erioed yn fwy pwysig i greu system fwyd ar gyfer Powys sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae canlyniadau uniongyrchol pandemig Covid-19, yr argyfwng costau byw, y Rhyfel parhaus yn Wcráin a gwrthdaro eraill yn y byd, ynghyd â chanlyniadau newid yn yr hinsawdd hirdymor, yn dangos pa mor hanfodol bwysig yw dod yn fwy hunangynhaliol gyda'n cyflenwad bwyd. Yn ffodus, mae hyn bellach yn cael ei gydnabod gan lawer o'n gwleidyddion blaenllaw. Mae'r cyfeiriad y dirwedd polisi o amgylch systemau bwyd yn gadarnhaol iawn er gwaethaf yr holl heriau ac fe'i dangosir isod.



[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) \(2015\)](#) - Mae strategaeth 'Cymru Can' Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 2023-2030, yn cynnwys bwyd fel maes ffocws ar gyfer y saith mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod bwyd o'r fferm i'r fforc yn hollbwysig i gyflawni nodau lles Cymru ar gyfer iechyd ein pobl a'n planed. Mae'r Comisiynydd hefyd yn adrodd am gynlluniau i weithio gyda chyrrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn integreiddio polisiau bwyd cynaliadwy yn eu cynlluniau lles, gan gynnwys datblygu cynlluniau bwyd cymunedol, i wneud newidiadau a gwelliannau ar lefel leol, yn seiliedig ar le.

[Deddf Amaethyddiaeth \(Cymru\). \(2023\)](#)- Mae deddf amaethyddol gyntaf Cymru, yn seiliedig ar Reoli Tir yn Gynaliadwy ac mae ganddi bedwar amcan trosfwaol sy'n cynnwys 'Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy'.

[Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus \(Cymru\) \(2023\)](#) - yn darparu fframwaith i hyrwyddo lles pobl Cymru drwy wella datblygiad cynaliadwy (gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus) drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael yn gymdeithasol gyfrifol. Mae hyn yn addas ar gyfer caffael lleol.

Trechwyd 'Bil Bwyd (Cymru)' arfaethedig o drwch blewyn o un bleidlais yn y Senedd ym mis Mai 2023. Fodd bynnag, roedd consensws bod angen strategaeth fwyd genedlaethol ar Gymru, ac y dylai Awdurdodau Lleol gael cynlluniau bwyd lleol yn eu lle. Mae fforwm traws-weinidogol wedi'i sefydlu, dan arweiniad y Prif Weinidog, i archwilio materion sy'n ymwneud â pholisi bwyd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru ac wedi comisiynu Miller Research i gynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch 'Map



Systemau Bwyd Cymunedol' Llywodraeth Cymru a gynlluniwyd i adlewyrchu dealltwriaeth gywir o'r dirwedd bwyd cymunedol yng Nghymru.

Er bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) sy'n cael ei gynnig i ddisodli'r Cynllun Taliad Sylfaenol presennol wedi achosi dadl, mae cyfleoedd o fewn SFS megis perllannau'n cael eu cynnwys yn y gofyniad gorchudd plannu coed ac, am y tro cyntaf, cynnig cymorth a chydabyddiaeth o arddwriaethwyr ar raddfa fach.


Synnwyr Bwyd Cymru yw'r arweinydd cenedlaethol ar gyfer Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru ac mae wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo newid polisi ar lefel Llywodraeth Cymru ers 2018. Ochr yn ochr â Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Synnwyr Bwyd Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth fwyd hirdymor wedi'i fframio o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## CYD-DESTUN RHANBARTHOL

Mae Powys yn gorchuddio tua 25% o dir Cymru, sy'n golygu mai hi yw'r sir fwyaf yn y wlad. Ond gyda phoblogaeth o ychydig dros 133,000, dyma'r sir deneuaf ei phoblogaeth hefyd. Gan ei bod yn sir wledig, mae amaethyddiaeth yn sector hynod bwysig, ac mae ein cymunedau lleol yn cael eu gwasanaethu gan farchnadoedd ffermwyr, marchnadoedd da byw, cynnyrch lleol gan arddwriaethwyr ar raddfa fach, sioeau pentref a mwy. Mae Cyngor Sir Powys yn helpu ac yn cefnogi ystod amrywiol o fentrau fferm yn yr hyn sy'n parhau i fod yn ystad ffermydd fwyaf Cymru.

Mae ymwelwyr o bob rhan o'r DU yn cael eu denu i Bowys. Mae Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanellwedd yn denu dros 200,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae'r sir hon hefyd yn cynnal Gŵyl Lenyddol y Gelli (bron i 300,000 o bobl). Mae Gŵyl Gomed Machynlleth yn denu tua 8,000 o ymwelwyr. Mae Powys hefyd yn adnabyddus am ei bwyd blasus ac wedi'i bendithio â bwytai â sêr Michelin yn ein sector lletygarwch.

Mae cymunedau Powys yn rhan o'i chryfder, gyda llawer o gymunedau bach ag ysbryd cymunedol cryf. Mae llawer o'r cymunedau hyn yn gweithio gyda phartneriaid eraill i sicrhau newid yn y systemau bwyd lleol.



Gan ein bod yn sir mor wledig, rydym yn wynebu rhai heriau sylweddol o ran darparu system fwyd deg i bawb. Mae'r [Mynegai Amddifadedd Lluosog](#) yn dangos bod llawer o'n trigolion dan anfantais o ran:

- Ynysigrwydd gwledig a chymdeithasol
- Diffyg opsiynau trafniadaeth
- Diffyg cysylltedd â gwasanaethau allweddol
- Iechyd gwael oherwydd deiet gwael
- Strwythurau sgiliau gwael
- Poblogaeth sy'n heneiddio



Mae maint enfawr Powys yn creu anawsterau o ran logisteg a chludo bwyd o ffynonellau lleol. Er mwyn helpu i liniaru'r heriau hyn, mae sefydliadau rhanbarthol yn cydweithio i gyflawni camau gweithredu. Cyhoeddodd Cyngor Sir Powys argyfwng hinsawdd ar 24 Medi 2020 a chyhoeddodd '[Strategaeth ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd](#)' 2021-2030. Un o'r pum Maes Ffocws yw 'Defnydd Tir ac Amaethyddiaeth'.

Nododd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, drwy ei [Aseiad Lles 2023](#), dair blaenoriaeth, gyda dwy yn ymwneud yn uniongyrchol â bwyd a ffermio: ymateb i'r argyfwng hinsawdd; a phwysau iach.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn darparu '[Dull System Gyfan Pwysau Iach: Cymru Iach](#)' ym Mhowys. Nododd ei ymgynghoriadau ei hun drwy 2023 bedair blaenoriaeth allweddol, gyda'r ddwy a ganlyn yn ymwneud yn uniongyrchol â bwyd iach, cynaliadwy: 'Sgiliau Coginio' a 'Mynediad at Fwydydd Fforddiadwy'.

Rhyddhaodd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n cwmpasu ardal fawr o Dde Powys, ei gynllun rheoli newydd ar gyfer 2023-2028 a nododd fwyd fel un o'r pedwar prif faes allyriadau carbon yn y parc, ac felly'n faes ffocws mawr iddynt.

Mae'r cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol yn gosod dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio eu hysgogwyr ar gyfer newid ac mae hyn i'w groesawu. Mae'r cyd-destun hwn eisoes wedi creu newid cadarnhaol iawn ym Mhowys, gyda Chyngor Sir Powys, un o aelodau sefydlu Bwyd Powys Food, yn ymuno â rhaglen '[Llyisiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru](#)' [Synnwyr Bwyd Cymru](#) ym mis Mawrth 2024. Nod y rhaglen yw cael mwy o lysiau Cymreig wedi'u cynhyrchu'n organig i mewn i ysgolion cynradd. Drwy ymuno â'r rhaglen hon, bydd prydau ysgol Powys yn iachach ac yn fwy maethlon i'n plant ac yn helpu i gefnogi cadwyni cyflenwi bwyd byrrach. Mae Cyngor Sir Powys hefyd wedi rhyddhau canllawiau cynllunio newydd yn benodol i gefnogi a chynorthwyo mentrau garddwriaethol ar raddfa fach. Mae hwn yn ddatblygiad a lleoliad hynod gadarnhaol ar gyfer lansio ein 'Strategaeth Bwyd Powys Food 2024-2028' newydd.

## PARTNERIAETH BWYD POWYS FOOD

Sefydlwyd Partneriaeth Bwyd Powys Food ym mis Mawrth 2022. Y partneriaid gwreiddiol oedd: Cultivate, Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Bartneriaeth bellach wedi tyfu i gynnwys yr aelodau llawn canlynol: Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Bannau Brycheiniog, Cyfoeth Naturiol Cymru a Choleg y Mynyddoedd Duon. Mae sefydliadau eraill sy'n mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd yn cynnwys: Clwstwr Ffermio'r Gelli Gandryll, LANTRA ac Ein Bwyd 1200.

Mae Partneriaeth Bwyd Powys Food yn cael ei harwain gan y chwe nod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy canlynol:

1. Mabwysiadu dull strategol a chydweithredol o lywodraethu a gweithredu bwyd da.
2. Adeiladu ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth fwyd weithredol a mudiad bwyd da lleol.
3. Mynd i'r afael â thlodi bwyd ac afiechyd sy'n gysylltiedig â deiet a chynyddu mynediad at fwyd iach fforddiadwy
4. Creu economi bwyd cynaliadwy fywiog, ffyniannus ac amrywiol
5. Trawsnewid arlwygo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynaliadwy.
6. Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi diwedd ar wastraff bwyd.


Rôl y Bartneriaeth yw:

- Gweithredu fel canolbwynt
- Meithrin ymgysylltiad eang gan randdeiliaid, gan adnabod rhanddeiliaid ar draws pob un o'r chwe nod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
- Sicrhau bod y bartneriaeth yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau a safbwyntiau lleol gyda ffocws ar grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Codi proffil y Bartneriaeth
- Sefydlu a derbyn adroddiadau gan weithgorau ar faterion penodol yn ymwneud â bwyd
- Mesur perfformiad Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bwyd Powys Food

## Aelodau a Chefnogwyr Partneriaeth Bwyd Powys Food

### Aelodau Bwyd Powys Food

- Bannau Brycheiniog
- Coleg y Mynydd Du
- Cultivate
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Coleg Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Sir Powys
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol



## Cefnogwyr a Chyfranwyr Bwyd Powys Food

- Ein Bwyd 1200
- Lantra/Cyswllt Ffermio
- Lleoedd Bwyd Cynaliadwy
- Synnwyr Bwyd Cymru

Mae Kathryn Dunstan, o'r Grŵp NPTC, yn esbonio pam fod y bartneriaeth yn bwysig iddyn nhw.

“Mae Grŵp NPTC yng Ngholeg y Drenewydd, un o aelodau sefydlu Bwyd Powys Food ac Ysgol y Celfyddydau Coginio, wedi cydweithio'n frwd gyda Cultivate o 2014. Mae'r bartneriaeth gyda BPF yn cefnogi strategaeth ein Coleg i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio, hyrwyddo cydlyniant cymunedol, annog ffyrdd iach o fyw a mynd i'r afael â thlodi a'r newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn deall bod angen gwirioneddol a chlr am ddull partneriaeth cryf er mwyn darparu rhaglen dinasyddiaeth fwyd weithredol ar draws ein hardal. Mae'r Coleg yn cefnogi BPF trwy ei fwyty hyfforddi, Themes. Lle bynnag y bo modd, mae'r bwyty'n defnyddio cymaint o gynnyrch wedi'i dyfu'n lleol ac sy'n cael ei gaffael drwy'r hyb bwyd. Mae'r bwyty wedi trefnu nifer o nosweithiau ar thema Gymreig llwyddiannus gan gynnwys 'Cymru ar Blât', 'Noson Gourmet Cymreig' ac 'O'r Borfa i'r Plât' i ddangos i ffyrwyr a'n cwsmeriaid cyhoeddus yr amrywiaeth o gynnyrch sydd ar gael yn lleol. Mae cysylltiadau gyda ffermwyr lleol trwy adran amaethyddiaeth y coleg wedi ein galluogi i gryfhau gwaith gyda chynhyrchwyr lleol. Mae ffreutur y coleg hefyd yn defnyddio'r hyb bwyd i gaffael bwyd lleol ac felly addysgu'r corff myfyrwyr cyfan am yr hyn sydd ar gael yn lleol. Mae cyfres o ddsbarthiadau nos rhan-amser yn ein galluogi i ymgysylltu â'r gymuned leol ac mae myfyrwyr hefyd wedi coginio ar gyfer digwyddiadau fel 'Gwobrau Dathlu'r Drenewydd' a 'Gwobrau Busnes Powys' gan ddefnyddio amrywiaeth o gynnyrch lleol.”



## Y BROSES YMGYNGHORI

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, ymgysylltodd Bwyd Powys Food â chymaint o aelodau o'n cymunedau â phosibl, trwy ymgynghoriadau ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd sefydliadau o'r sector cyhoeddus, llywodraeth leol, y trydydd sector, busnes a'r gymuned yn rhan o'r broses ymgynghori drwy gydol ac yn ystod yr Uwchgyhaddled Fwyd.

### Holiadur Ar-lein

Ymatebodd cyfanswm o 127 o drigolion Powys i'r holiadur ar-lein ([Bwyd Powys Food Online Questionnaire English](#)) ([Holiadur Ar-lein Bwyd Powys Food Cymraeg](#))

Anfonwyd yr holiadur yn y Gymraeg a'r Saesneg ac roedd yn gymorth i gynrychioli barn pobl ar draws y sir. Roedd yr holiadur hefyd ar gael i'w gwblhau mewn amrywiol ddogwyddiadau ar draws Powys ac fe'i dosbarthwyd i'r grwpiau canlynol i'w ddsbarthu i'w haelodau.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Coleg y Mynydd Du
Banc Bwyd Aberhonddu	Cyngor Tref Aberhonddu
U3A Aberhonddu	Parc Lles Bronllys
Cyngor Tref Llanfair-ym-muallt	Castell y Dail
Cymdeithas Ddinesig Crucywel	Rhwydwaith Gwyrdd Crucywel
Dechrau'n Deg Powys	Cyfeillion Bannau Brycheiniog
Tyfwr a Ffermwyr ar draws Powys	Siambwr Fasnach Y Gelli Gandryll
Cyngor Tref y Gelli Gandryll	Banc Bwyd Trefyclo a Llanandras
Grŵp Coetiroedd Cymunedol Trefyclo	Clwb Rotari Trefyclo
Cynghrair Gweithwyr Tir	Banc Bwyd Llandrindod
Cylch Merched Llandrindod	Cyngor Tref Llandrindod
Transition Llandrindod	U3A Llandrindod
Gweithio â'n Gilydd Llandrindod	Tref Masnach Deg Llandrindod
Llangatock Green Valleys	Cyngor Tref Machynlleth
Cynghrair Iechyd a Bwyd Pobl Canolbarth Cymru	MIND Canolbarth a Gogledd Powys
Ymddiriedolaeth Natur Trefaldwyn	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gweithwyr Cymunedol y Drenewydd (35+ o aelodau)	Aelodau Rhwydwaith y Drenewydd (10+ aelod)

Agor Drenewydd	Oriel Davies Gallery
Ein Bwyd 1200	Rhwydwaith Law yn Llaw Powys
Tai POBL	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Gwasanaeth Ieuenctid Powys	Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed
Sustainable Land Trust	Wye and Usk Foundation
Grŵp Clwstwr Ffermydd Gwy	

### Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb â Rhanddeiliaid

Roedd yr ymgynghoriadau cymunedol a gynhaliwyd yn ystod 2023 yn cynnwys ystod eang o ystodau oedran o'r ifanc iawn i'r henoed, ac fe'u cynhaliwyd ar draws ystod o leoliadau ym Mhowys i sicrhau bod cymaint o bobl yn cael cyfle i gymryd rhan a llunio ein strategaeth â phosibl. Dewisom gynnal yr ymgynghoriadau mewn grwpiau yn hytrach na gofyn iddynt ddod atom i sicrhau bod y broses ymgynghori mor hawdd â phosibl. Seiliwyd yr ymgysylltiadau personol â rhanddeiliaid ar 6 Nod Allweddol Lleoedd Bwyd Cynaliadwy.

Ar draws yr holl ddigwyddiadau i rhanddeiliaid, gan gynnwys yr Uwchgynhadledd Fwyd, ymgysylltwyd â 235 o bobl wyneb yn wyneb ar draws 35 o sefydliadau. Cynhaliwyd y digwyddiadau rhanddeiliaid canlynol yn ystod gwanwyn, haf a hydref 2023, gan orffen gyda'r Uwchgynhadledd Fwyd.

Dyddiad	Cyfranogwyr	Lleoliad
21/04/2023	6	Dechrau Coginio Pendinas, Y Drenewydd
15/06/2023	15	Cartref Gofal Oaks Y Drenewydd
29/06/2023	60	Ysgol Gynradd Penygloddfa, Y Drenewydd
03/07/2023	1	Cyngor Tref Machynlleth, Machynlleth
04/07/2023	18	Ysgol Gynradd Buttington, Y Trallwng
05/07/2023	20	Ysgol Gynradd yr Archddiacon Griffiths, Aberhonddu
06/07/2023	6	Oergell Gymunedol Y Pantri, Llanfyllin
07/07/2023	12	Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn, Y Trallwng
10/07/2023	15	Ysgol Gynradd Maesydderwen, Ystradgynlais

10/08/2023	11	Hyb Croeso Y Trallwng, Y Trallwng
11/08/2023	6	Tenantiaid a Phreswylwyr Heol Oldford, Y Trallwng
03/09/2023	8	Gŵyl Fwyd y Drenewydd
11/09/2023	5	Tyfwyr De Powys, Llan-gors
20/09/2023	8	Bwyd Lleol i Bobl Leol, Machynlleth
21/09/2023	14	Fforwm Amaethyddiaeth Gynaliadwy, Llanidloes
25/09/2023	12	Rhanddeiliaid Iechyd a Thlodi Bwyd, Aberhonddu
16/10/2023	26	Uwchgynhadledd Fwyd, Hafan yr Afon, Y Drenewydd



## CANFYDDIADAU

Dewiswyd **Resources for Change** (R4C) gan Bwyd Powys Food yng ngwanwyn 2023 i gynorthwyo gyda'r ymgynghoriad a chynllunio a chyflawni'r Uwchgynhadledd Fwyd, dadansoddi'r canfyddiadau, a llunio'r Weledigaeth, Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bwyd ar gyfer Powys a ddilynodd.

Dadansoddwyd holl ganfyddiadau'r ymgynghoriad, o holiaduron a digwyddiadau rhanddeiliaid, gan R4C a Bwyd Powys Food i nodi themâu cyffredin cyn yr Uwchgynhadledd Fwyd. Adroddir y canfyddiadau allweddol isod a dylanwadodd y rhain ar y dewis o weithdai yn ystod yr Uwchgynhadledd Fwyd.

### Canfyddiadau Allweddol

- Mae proffil oedran yr ymatebwyr wedi'i bwysoli tuag at bobl hŷn. Roedd 69% yn 45 oed neu'n hŷn. Roedd 26% yn 65-74 oed. Roedd 28% o'r ymatebwyr yn iau na 45 oed
- Nododd 59% o ymatebwyr eu bod yn fenywod, gyda 33% yn ddynion
- Dywedodd 89% o ymatebwyr eu bod yn wyn
- Mae pobl dan 45 oed yn ei chael hi'n anoddach bwyta'n iach na phobl dros 45 oed
- Weithiau, neu'n aml nid oes gan 6% o bobl dan 45 oed ddigon o fwyd i'w fwyta
- Roedd 32% o bobl dan 45 oed weithiau neu'n aml yn poeni y byddai eu cyflenwad bwyd yn dod i ben cyn bod ganddyn nhw ddigon o arian i brynu mwy
- Mae mwy o bobl o dan 45 oed (77%) yn gwneud y rhan fwyaf o'u siopa bwyd mewn archfarchnadoedd, o gymharu â'r rhai 45 oed a hŷn (52%)
- Mae rhwystrau i fwyta bwyd iach yn cynnwys: cost, amser a diffyg opsiynau bwyd iach

Dyma rai o'r sylwadau a roddwyd gan ymatebwyr:

"Mae bwyd sy'n afiach ac sy'n dod mewn deunydd pecynnu yn aml yn fforddiadwy ac yn hawdd ei gyrchu sy'n achosi i fwy o bobl brynu bwyd nad yw'n gynaliadwy"

"Nid oes llawer o bobl (yn enwedig y bobl iau) yn gwybod sut i goginio bwyd iach, ac felly'n defnyddio cynnyrch sydd ddim yn gynaliadwy."

"Diffyg cynnyrch lleol, marchnadoedd ffermwyr, siopau bach wedi'u lleoli'n gyfleus yn y dref"

"Creu cydweithfeydd rhannu bwyd i leihau gwastraff bwyd"

"Mwy o ffrwythau a llysiau ffres lleol ar gael yn y siopau a'r marchnadoedd am brisiau y gall pobl fforddio eu prynu. Byddai hyn yn arwain at lai o filltiroedd bwyd a llai o ddeunydd pecynnu a dylai ffrwythau a llysiau fod yn fwy ffres ac yn fwy maethlon."



"Byddai prosiect tyfu bwyd i ysgolion yn anhygoel. Cysylltu ysgol gyda fferm organig a/neu gael gwelyau llysiâu ar dir yr ysgol."

"Addysg mewn cynhyrchu, cyrchu a choginio bwydydd iach"

"Lleihau'r defnydd o blastig o ddechrau'r broses!!!"

Am y canfyddiadau llawn, cliciwch ar y ddolen: [Crynodeb o Ganfyddiadau Allweddol yr Ymgynghoriadau](#)

## **UWCHGYNHADLEDD FWYD BWYD POWYS FOOD Y DRENEWYDD HYDREF 2023**

Cyflwynwyd canfyddiadau'r ymarferion mapio i gynrychiolwyr yn yr Uwchgyhadledd Fwyd yn y Drenewydd ym mis Hydref 2023 a dyma oedd y man cychwyn ar gyfer trafodaethau ar ddatblygu'r weledigaeth, y strategaeth a'r cynllun gweithredu bwyd ar y cyd.

Roedd 22 o sefydliadau strategol gyda chyfrifoldebau am agweddau ar fwyd cynaliadwy yn bresennol yn yr Uwchgyhadledd Fwyd. Yn gyffredinol, cyfrannodd 35 o sefydliadau a 500 o unigolion o'n cymunedau eu barn ar sut y gallwn wella system bwyd lleol Powys.

### **Roedd cynrychiolwyr o'r grwpiau canlynol yn bresennol yn yr Uwchgyhadledd Fwyd**

Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Ceredigion	Cultivate
Synnwyr Bwyd Cymru	Tyfwr - Ash & Elm
Tyfwr - Fferm Broniarth	Tyfwr - Annibynnol
Cadwch Gymru'n Daclus	Mach Maethlon
Cyngor Tref Machynlleth	Cyfoeth Naturiol Cymru
Coleg Castell-nedd Port Talbot	Gŵyl Fwyd y Drenewydd
GIG	Ein Bwyd 1200
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys	Cyngor Sir Powys
Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig Cyngor Sir Powys	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Shed 38	Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
Tir Coed	Wilderness Trust

Rhoddodd Katie Palmer, Rheolwr Rhaglen Synnwyr Bwyd Cymru, gyd-destun cenedlaethol a bydeang i'r heriau sy'n wynebu systemau bwyd. Rhannodd Cadeirydd Bwyd Powys Food, Richard Edwards, y camau yr oedd Bwyd Powys Food wedi'u cymryd hyd yma gan roi cyd-destun lleol. Rhannwyd y mynychwyr yn grwpiau o gymysgedd o sefydliadau, er mwyn cael amrywiaeth barn drwy gydol y trafodaethau ac i feithrin cyd-ddealltwriaeth. Yna, rhoddwyd y dasg i'r mynychwyr i bennu nodweddion hanfodol i fod yn sail i weledigaeth fwyd hirdymor ar gyfer Powys.

Parhaodd yr ail sesiwn fore mewn grwpiau cymysg. Rhannodd Deio Jones o Resources For Change ganfyddiadau'r ymgynghoriad cychwynnol gyda'r rhai a oedd yn bresennol, gan ddarparu dadansoddiad o'r ymatebion i'r holiadur a'r digwyddiadau i randdeiliaid. Gan ganolbwyntio ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad, rhoddwyd y dasg i'r rhai a oedd yn bresennol i ddiffinio'r canlyniadau dymunol i fod yn sail i strategaeth fwyd ar gyfer Powys.

Yn y prynhawn, cafodd y mynychwyr eu grwpio gyda phobl o'u sefydliadau eu hunain neu sefydliadau tebyg, er mwyn pennu cyfraniad cyfredol a phosibl eu sefydliad i'r cynllun gweithredu bwyd. Rhannodd Resources For Change y themâu allweddol yr oedd y canlyniadau dymunol o sesiwn y bore wedi'u hamlygu. Rhoddwyd y dasg i'r mynychwyr o nodi a dogfennu'r camau a'r gweithgareddau yr oedd eu sefydliadau eisoes yn ymgymryd â nhw, o dan bob un o'r themâu allweddol, sy'n cyfrannu at wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r canlyniadau dymunol y cytunwyd arnynt yn sesiynau'r bore. Roedd hyn yn sail i'r adran 'Beth sy'n digwydd eisoes' o'r cynllun gweithredu bwyd ar gyfer Powys.

Roedd sesiwn olaf y prynhawn yn dilyn yr un fformat â'i ragflaenydd, ond symudodd y ffocws i ddull rhagweithiol, blaengar. Rhoddwyd y dasg i'r rhai a oedd yn bresennol i nodi bylchau a chyfleoedd yng ngweithgareddau eu sefydliadau mewn perthynas â'r themâu allweddol, ac ymrwymo i gamau gweithredu newydd a fydd yn gwireddu'r weledigaeth ac yn cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn y bore, gan ffurfio sail ar gyfer adran 'Beth rydym yn ymrwymo i'w wneud' y cynllun gweithredu bwyd ar gyfer Powys.

Yn dilyn yr Uwchgynhadledd Fwyd, cynhaliwyd dadansoddiad manwl o gyfraniadau'r holl fynychwyr gan Resources For Change. Cymhathwyd crynodeb o ganfyddiadau'r Uwchgynhadledd Fwyd i bennu'r Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Powys. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei chyfosod i greu gweledigaeth gyfannol, strategaeth gyraeddadwy, a chynllun gweithredu cynhwysfawr ar gyfer Powys.

## CANLYNIADAU STRATEGOL

Datgelodd yr ymgynghoriadau cymunedol a gweithdai'r Uwchgynhadledd Fwyd sawl thema a oedd yn gorgyffwrdd, hyd yn oed ymhlith gwahanol ddemograffeg a lleoliadau gwahanol ar draws Powys. Mae rhestr lawn o'r canlyniadau i'w gweld trwy ddefnyddio'r ddolen hon: [Gweithdy 'Canlyniadau Dymunol' Uwchgynhadledd Fwyd Powys: Dadansoddiad a Synthesis](#)

Rydym wedi grwpio'r themâu hyn yn y pedwar Canlyniad Strategol a ganlyn:

### Canlyniad Strategol 1:

Cyfleoedd i ymgysylltu â phobl am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyta tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion

### Canlyniad Strategol 2:

Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo


### Canlyniad Strategol 3:

Gwell iechyd a lles cymunedol

### Canlyniad Strategol 4:

Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys

Bydd effaith a llwyddiannau Cynllun Gweithredu Bwyd Powys Food isod yn cael eu mesur drwy'r pedwar Canlyniad Strategol.



# CYNLLUN GWEITHREDU BWYD POWYS FOOD

Amserlen: S=0 fewn blwyddyn, M=1-3 blynedd, L=3+ blynedd

**Nod Lleoedd Bwyd Cynaliadwy (SFP) 1: Llywodraethu a Strategaeth Fwyd: Mabwysiadu dull strategol a chydweithredol o lywodraethu a gweithredu bwyd da.**

Cam Gweithredu	Amserlen	Arweinydd (Partneriaid)	Canlyniad Bwyd Powys Food
1 Adolygu strategaeth i gymryd golwg gyfannol ar reoli tir Cyngor Sir Powys (a chyrrff cyhoeddus eraill, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru) drwy ffermio cynaliadwy i fynd i'r afael ag anghenion bwyd, hinsawdd a natur	M	Cyngor Sir Powys Cyfoeth Naturiol Cymru Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Ein Bwyd 1200, Lantra, Cyswllt Ffermio, Ffermwyr Tenant)	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>  <b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>
2 Darparu canllawiau cynllunio clir a chefnogol i gynorthwyo newydd-ddyfodiaid i arddio marchnad	S	Cyngor Sir Powys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Ein Bwyd 1200, Biosffer Dyfi)	<b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>

3	Sicrhau bod dull gweithredu seiliedig ar le Cyngor Sir Powys yn ymgorffori naratif a chamau gweithredu cadarnhaol ynghylch adeiladu a chefnogi rhwydweithiau bwyd cynaliadwy	S	Cyngor Sir Powys Cynghorau Tref/Cymuned Bwyd Powys Food Eco Dyfi	<b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>
4	Datblygu Cynllun Gweithredu Systemau Iechyd y Cyhoedd i weithio'n fwy cydweithredol	S	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	<b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>  <b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>
5	Datblygu ymchwil, cyfathrebu a marchnata ynghylch dwysedd maethynnau bwyd a dyfir yn ecolegol (gan ddefnyddio profion Brix) - cynnal gweithdai 'Blasu a Phrofi' mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol ar draws Powys. Cymharu dwysedd maetholion cynnyrch cyfanwerthu â chynnyrch tyfwyr lleol. Gwerthuso gweithdai am dystiolaeth	M	Cultivate Bwyd Powys Food (Tyfwyr)	<b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>  <b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>
6	Datblygu dulliau i fesur a gwella allbynnau cymdeithasol tyfu a ffermio. Er enghraifft, hyfforddiant ar y Marc Ansawdd Gofal Gwyrdd gyda grwpiau Powys	L	Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (Ffermwyr a Thyfwyr)	<b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>  <b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>

7	Parhau i gynnal Bwyd Powys Food	S	Cultivate	Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys
---	---------------------------------	---	-----------	--

## Nod SFP 2: Mudiad Bwyd Da: Adeiladu ymwybyddiaeth y cyhoedd, dinasyddiaeth fwyd weithredol a mudiad bwyd da lleol.

Cam Gweithredu	Amserlen	Arweinydd (Partneriaid)	Canlyniad Bwyd Powys Food	
8	Annog rhagor o ysgolion i fanteisio ar y cynnig o adnoddau coginio a thyfu gan Gyngor Sir Powys (yn ddibynnol ar gyllideb yr ysgol ond gellid ei wneud gyda phartneriaid)	S	Cyngor Sir Powys (Mach Maethlon, Yr Ymddiriedolaethau Natur, Cultivate)	Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion
9	Annog mwy o ysgolion i fod yn rhan o Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Mae'r rhain yn rhedeg gwasanaeth gofal plant wedi'i gyfuno ag addysg coginio a sgiliau garddwriaeth	S	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (Tir Coed, Mach Maethlon, Cultivate, Y Pantri/Brace Llanfyllin)	Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion
10	Targed o gyflwyno rhaglen eco-ysgol ym mhob ysgol ym Mhowys i gynyddu addysg ac ymgysylltiad â materion bwyd ac amgylcheddol, ac i greu dinasyddion bwyd	M	Bwyd Powys Food Cadwch Gymru'n Daclus (Cyngor Sir Powys, Biosffer	Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth

	gweithredol		Dyfi)	<b>bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>
11	Cefnogi ysgolion a chymunedau i gael cyllid ar gyfer lleoedd lleol i fyd natur er mwyn gosod gerddi tyfu bwyd. Targed o gyflwyno rhaglen eco-ysgol ym mhob ysgol ym Mhowys i gynyddu addysg ac ymgysylltiad â materion bwyd ac amgylcheddol, ac i greu dinasyddion bwyd gweithredol	M	Cadwch Gymru'n Daclus Tyfu Powys (SF&G)	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>  <b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>
12	Cyflwyno gweithdai bwyd cymunedol i ddysgu pobl sut i goginio a thyfu bwyd iach, maethlon, lleol. Chwilio am gyllid a phartneriaid cyflawni i ehangu darpariaeth	S	Cultivate Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - Sgiliau Maeth am Oes, Bwyta'n Gall, Cynilo'n Well (Biosffer Dyfi, Mach Maethlon, partneriaid/cydweithfeydd lleol)	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>  <b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>
13	Ymgysylltu â rhagnodi cymdeithasol a phartneriaid darparu iechyd a lles eraill e.e. prosiect "Sgiliau Gwyllt, Lleoedd Gwyllt (WSWP)" MWT. Mae WSWP yn	M	Cultivate Meddygon Teulu	<b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>

	hyrwyddo iechyd a lles cadarnhaol trwy gynnal gweithgareddau tyfu a rhannu bwyd trwy hyrwyddo'r defnydd o blannu cnydau cyfatebol er budd pobl a bywyd gwyllt.		Ponthafren Cysylltwyr Cymunedol PAVO Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Eco Dyfi	
14	Datblygu calendr 12 mis o weithdai bwyd a sesiynau lles	S	Bwyd Powys Food Cultivate (Partneriaid lleol fel Arbed Bwyd Machynlleth)	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>  <b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>
15	Datblygu digwyddiadau dathlu bwyd sy'n dathlu bwyd tymhorol a lleol fel pryd 15 milltir, gwleddoedd cymunedol	S	Cultivate Bwyd Powys Food Eco Dyfi/Biosffer Dyfi Cymunedau lleol	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion. Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo. Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>



16	Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi ar dyfu bwyd wedi'i hanelu at gynghorau tref a chymuned (hyfforddiant/canllawiau Un Llais Cymru gyda chynghorau tref a chymuned)	M	Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (Un Llais Cymru)	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>
17	Sicrhau bod cynlluniau buddsoddi trefi yn cynnwys ystyriaeth o fwyd	L	Cynghorau Tref a Chymuned  Bwyd Powys Food	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>  <b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>
18	Creu gweledigaeth ar gyfer rhandiroedd ym Mhowys	M	Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol  Cyngor Sir Powys  (Cynghorau Tref a Chymuned, Un Llais Cymru, Fforwm Rhandiroedd)	<b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>

19	<p>Mapio systemau bwyd ar draws Powys (gan gynnwys: oergelloedd cymunedol, banciau bwyd, tyfu cymunedol, sefydliadau bwyd dros ben, rhandiroedd, prydau cymunedol, clybiau swper, manau tyfu cymunedol ac ati)</p> <p>Cyflwyno map bwyd electronig o Bowys. I gynnwys: cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd lleol, manwerthwyr, lletygarwch, manau tyfu cymunedol, mynediad at fwyd am ddim/gyda chymhorthdal, ac ati.</p> <p>Treialu llwybrau 'Blasau Powys' gan ddefnyddio Trefaldwyn fel ardal beilot</p>	S	<p>Bwyd Powys Food</p> <p>Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol</p> <p>Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</p> <p>Cyngor Sir Powys</p> <p>Partneriaid lleol (fel Arbed Bwyd Machynlleth, Cyngor Tref y Trallwng, banciau bwyd, Tyfu Powys, Montgomery Partnership, Y Pantri/BRACE Llanfyllin, Eco Dyfi)</p>	<p><b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b></p> <p><b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwrwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b></p> <p><b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b></p>
20	<p>Cynhyrchu Strategaeth Gyfathrebu i gefnogi gwaith Bwyd Powys Food i adeiladu 'mudiad bwyd da lleol'</p>	S	<p>Bwyd Powys Food</p>	<p><b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b></p> <p><b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b></p>
21	<p>Datblygu Siarter Fwyd Powys</p>	S	<p>Bwyd Powys Food</p>	<p><b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b></p>

## Nod SFP 3: Bwyd Iach i Bawb: Mynd i'r afael â thlodi bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â deiet a mynediad at fwyd iach fforddiadwy.

Cam Gweithredu	Amserlen	Arweinydd (Partneriaid)	Canlyniad Bwyd Powys Food
<p>22 Adeiladwch ar raglen Bwyta'n Gall, Cynilo'n Well a Sgiliau Maeth am Oes sy'n archwilio ffyrdd o fwyta'n iach, defnyddio cynhwysion cwpwrdd storio, a rhannu awgrymiadau ar gyfer arbed arian. Cyflwyno mewn lleoliadau cymunedol, ysgolion, ac ati. Hwyluso'r</p> <p>Bwrdd Iechyd i gyflwyno i arweinwyr lleoedd tyfu cymunedol. Cysylltu â digwyddiadau Bwyta'n Iach Tyfu Powys (gwyliau cynhaeaf gyda chyfieithiadau o lysiau Cymreig Camau Gwyrdd. Arbed hadau/sofraniaeth y Gaia Foundation)</p>	S	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Cyngor Sir Powys (Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol)	<p><b>Canlyniad strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b></p> <p><b>Canlyniad strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b></p>
<p>23 Parhau i gefnogi mentrau cymdeithasol yn ymwneud ag aiddosbarthu bwyd a gwastraff tra'n cydnabod pwysigrwydd sofraniaeth bwyd</p>	S	Cyngor Sir Powys (Banciau bwyd, Cyngorau tref a chymunedau TT)	<b>Canlyniad strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>

24	Dangos arweinyddiaeth ar y Cyflog Byw Gwirioneddol	S	Cyngor Sir Powys	Canlyniad strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol
25	Anelu at sicrhau bod gan bawb sy'n gadael yr ysgol ddealltwriaeth dda o dyfu bwyd a sut i goginio pryd maethlon	M	Cyngor Sir Powys Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Coleg Castell-nedd Port Talbot (Bwyd Powys Food, Ysgolion, Cadwch Gymru'n Daclus)	Canlyniad strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion  Canlyniad strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol
26	Darparu hyfforddiant iechyd a maeth i ymarferwyr iechyd a'r gymuned	S	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Canlyniad strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion
27	Ymchwilio i'r galw am, ac argaeledd, tir ar gyfer lleoedd tyfu a thyfu cymunedol (Adnoddau: Pecyn tyfu cymunedol Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Cefnogaeth gan y Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol)	M	Cultivate Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol	Canlyniad strategol 1: Cyfleoedd i ymgysylltu am ddiwylliant a threftadaeth bwyd, bwyd tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion

## Nod SFP 4: Economi Bwyd Cynaliadwy: Creu economi bwyd cynaliadwy fywiog, ffyniannus ac amrywiol

Cam Gweithredu		Amserlen	Arweinydd (Partneriaid)	Canlyniad Bwyd Powys Food
28	Defnyddio'r hyn a ddysgwyd gan Ffermydd y Dyfodol fel model i ddatblygu fframwaith sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi gofod tyfu atgynhyrchiol ar raddfa fach	M	Cyngor Sir Powys Ein Bwyd 1200	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
29	Adeiladu economi bwyd lleol trwy gefnogi dyraniad o 1200 erw ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau atgynhyrchiol ar gyfer marchnadoedd lleol ym Mhowys	M	Ein Bwyd 1200 (Cyngor Sir Powys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol)	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
30	Lle bo galw, cefnogi tyfwyr i sefydlu menter gydweithredol	M	Bwyd Powys Food (Tyfwyr a Chynhyrchwyr)	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
31	Adeiladu seilwaith ar gyfer economi bwyd lleol. Mynd i'r afael â diffyg cyfleusterau prosesu ar raddfa fach, e.e. lladd-dai, melinau, prosesu ffrwythau a llysiau	M	Clwstwr ffermio'r Gelli Gandryll Rhwydwaith grawn Partneriaeth y Gororau	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>

32	Adeiladu cadwyni cyflenwi cryf, byr trwy ddatblygu rhwydweithiau dosbarthu lleol	M	Cultivate Bwyd Powys Food Ein Bwyd 1200 Tyfwyr a ffermwyr Eco Dyfi Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
----	--	---	---	---

### **Nod SFP 5: Arlwyo a Chaffael: Trawsnewid arlwyo a chaffael ac adfywio cadwyni cyflenwi lleol**

Cam Gweithredu		Amserlen	Arweinydd (Partneriaid)	Canlyniad Bwyd Powys Food
33	Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu canolfan gaffael a chyfleuster prosesu ym Mhowys gan ddefnyddio model cydweithredol	L	Bwyd Powys Food	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>

34	Ymuno â'r prosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru sy'n anelu at ddatblygu cadwyni cyflenwi agroecolegol lleol newydd i ysgolion – gan ganolbwyntio'n benodol ar llysiau. Cefnogi newydd-ddyfodiaid i Brosiect Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion Cymru	S	Cyngor Sir Powys Bwyd Powys Food Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol (Cynghrair Gweithwyr Tir Cultivate, Castell Howell)	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwrwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
35	Cynyddu galw cyhoeddus a phreifat am gynnyrch lleol, gan gynnwys caffael cyhoeddus	M	Bwyd Powys Food Cultivate Ein Bwyd 1200 Cyngor Sir Powys Eco Dyfi	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwrwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
36	Pwyllgorau eco-ysgol i ymgyrchu i wella darpariaeth a chaffael prydau ysgol	M	Cadwch Gymru'n Daclus Ysgolion Eco (Cyngor Sir Powys)	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ddysgu am fwyd lleol, tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>
37	Ysgolion Powys i weithio tuag at yr achrediad Aur i fodloni canllawiau maeth Bwyd mewn Ysgolion	M	Cyngor Sir Powys Bwyd Powys Food Cultivate	<b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>

38	Gweithio gyda deietegwyr Cyngor Sir Powys i sicrhau bod y cyngor yn defnyddio cynnyrch tymhorol lle bynnag y bo modd yn eu bwydlenni	M	Cyngor Sir Powys Bwyd Powys Food	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>  <b>Canlyniad Strategol 4: Creu cyd-destun polisi bwyd da ar gyfer Powys</b>
----	--	---	-------------------------------------	--

**Nod SFP 6: Bwyd i'r Blaned: Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy fwyd a ffermio cynaliadwy a rhoi diwedd ar wastraff bwyd.**

Cam Gweithredu	Amserlen	Arweinydd (Partneriaid)	Canlyniad Bwyd Powys Food	
39	Cyflwyno prosiectau ar y cyd ar gyfer offer garddwriaeth gymunedol, sefydlu a hyfforddiant	S	Cadwch Gymru'n Daclus Tir Coed Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cultivate Eco Dyfi	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ddysgu am fwyd lleol, tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>  <b>Canlyniad Strategol 3: Gwell iechyd a lles cymunedol</b>



40	Chwilio am bartneriaid a chodi ymwybyddiaeth o sut y gellir rheoli tir ar gyfer pobl a natur trwy ffermio mewn ffyrdd ecogyfeillgar - Fferm Pentwyn	S	Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed Bwyd Powys Food Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru - Brycheiniog	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
41	Ymgysylltu â ffermwyr, cynhyrchwyr ac undebau ynghylch ansawdd dŵr, natur, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd	M	Cyfoeth Naturiol Cymru Cyngor Sir Powys Y Bartneriaeth Natur Leol	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>
42	Lleihau allyriadau carbon o fwyd i gyrraedd targed y parc cenedlaethol o dorri 22% mewn allyriadau CO <sup>2</sup> sy'n deillio o fwyta bwyd erbyn 2028, tra'n cynnal deiet iach a chynyddu'r cyflenwad bwyd lleol	S	Grwpiau Ras i Sero (Ein Bwyd 1200 Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ddysgu am fwyd lleol, tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>
43	Dylunio a chyflwyno adnoddau a gweithdai addysg ac ymgysylltu penodol yn ymwneud â bwyd sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd a choginio a bwyta'n iach a chynaliadwy.	S	Cultivate Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ddysgu am fwyd lleol, tymhorol, iechyd a</b>

	(Tyfu Powys/ Camau Gwyrdd prosiectau â chyfarwyddyd Egin)		(Lluosog)	maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion
44	Darparu ystod o gymwysterau a hyfforddiant ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a garddwriaethwyr	M	Coleg Castell-nedd Port Talbot (NVQ Garddwriaeth, Lefel 2 a 3 Gradd City & Guilds mewn Amaethyddiaeth Cynhyrchu)  Coleg y Mynyddoedd Duon (Garddwriaeth Adfywiol)  Lantra/Cyswllt Ffermio  Eco Dyfi	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ddysgu am fwyd lleol, tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>
45	Darparu amrywiaeth o gymwysterau a hyfforddiant ar gyfer y genhedlaeth nesaf o staff arlwyo a lletygarwch	M	Coleg Castell-nedd Port Talbot	<b>Canlyniad Strategol 1: Cyfleoedd i ddysgu am fwyd lleol, tymhorol, iechyd a maeth ar bob lefel, gan gynnwys ysgolion</b>
46	Cynyddu argaeledd lleiniau ffermio micro ar gyfer ffermwyr/tyfwyr newydd (Llwybrau i Ffermio)	M	Eco Dyfi/Biosffer Dyfi  Mach Maethlon  Cultivate	<b>Canlyniad Strategol 2: Cynhyrchwyr a thyfwyr cynaliadwy, wedi'u cefnogi a'u gwobrwyo</b>

## DILYSU

Er mwyn sicrhau bod yr holl sefydliadau arweiniol a sefydliadau partner a amlinellwyd yn y Cynllun Gweithredu yn hapus i gael eu henwi ar gyfer pob cam gweithredu, cynhaliwyd proses ddilysu lem. Cysylltwyd â phob partner dros y ffôn, drwy e-bost, drwy gyfarfodydd ar-lein, neu ymwelwyd â nhw yn y cnawd i drafod pob gweithgaredd fesul cam. O ganlyniad, mae pob cam gweithredu wedi'i ddilysu a gellir ei gyflwyno'n hyderus.

## TROSOLWG

Mae Powys mewn sefyllfa gref i gyflawni ei gweledigaeth, strategaeth a chynllun gweithredu bwyd. Mae nifer ac amrywiaeth y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn dangos diddordeb pobl mewn bwyd a faint mae pobl yn poeni amdano: mae sylfaen dinasyddiaeth fwyd weithredol yma eisoes.

Mae'r weledigaeth yn syml, yn ysbrydoli unigolion a sefydliadau ym Mhowys drwy roi ystyr i'w gweithgareddau i wella systemau bwyd lleol. Mae'r canlyniadau dymunol ar gyfer y sir yn dangos ystod eang o welliannau sy'n bwysig i bobl ym Mhowys, a fydd o fudd i'w hiechyd a'u lles, ac yn gwella'r economi a'r amgylchedd lleol.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd am yr hyn y mae sefydliadau eisoes yn ei wneud i wella systemau bwyd Powys yn sylweddol ac yn galonogol, gan ddangos ymateb i angen ac ymrwymiad i gamau gweithredu cyn yr ymgynghoriad, yr uwchgynhadledd fwyd, y weledigaeth, y strategaeth a'r cynllun gweithredu.

Mae presenoldeb a chyfranogiad brwdfrydig yn yr uwchgynhadledd fwyd, addewidion a wnaed ar y diwrnod ac a gadarnhawyd drwy'r broses ddilysu yn dangos sir y mae ei sefydliadau yn graff ar yr heriau sy'n wynebu systemau bwyd Powys, ac yn ddyfeisgar ac yn barod i wneud eu rhan i oresgyn yr heriau hynny.

Mae'r ymgynghoriad llwyddiannus, ymgysylltu a chanlyniadau strategol yn rhoi hyder y bydd 'Strategaeth Bwyd Powys Food 2024-2028' yn dod yn gynllun i drigolion a sefydliadau, gan ysgogi gwelliannau llwyddiannus yn systemau bwyd y sir er budd pobl, lleoedd a'r blaned, ac ysbrydoli newid cynaliadwy.

## Gwybodaeth Gyswilt ac Arall

### Strategaeth Bwyd Powys Food 2024-2028

Datblygwyd gan Bwyd Powys Food.

Cynhelir gan Cultivate.

Wedi'i hwyluso a'i chefnogi gan Resources for Change.

### Cadeirydd Bwyd Powys Food

Richard Edwards

E-bost: [richarde@cultivate.uk.com](mailto:richarde@cultivate.uk.com)

### Cydlynnydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy Gogledd Powys

Nick Burdekin

E-bost: [nickb@cultivate.uk.com](mailto:nickb@cultivate.uk.com)

### Cydlynnydd Lleoedd Bwyd Cynaliadwy De Powys

Chloe Masefield

E-bost: [chloem@cultivate.uk.com](mailto:chloem@cultivate.uk.com)

### I ddod yn Aelod o Cultivate neu Bwyd Powys Food, e-bostiwch

E-bost: [info@cultivate.uk.com](mailto:info@cultivate.uk.com)

### Gwefan

<https://www.cultivate.uk.com/bwyd-powys-food/>

### Dilynwch ni ar y Cyfryngau Cymdeithasol

[www.facebook.com/cultivatentown/](https://www.facebook.com/cultivatentown/)

[www.instagram.com/cultivatentown/](https://www.instagram.com/cultivatentown/)

### Graffeg Gan

Maia Thomas

<https://www.maiathomas.art/graphic-harvesting>

### Argraffwyd Gan

Welshpool Printng Group

